LLES GENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

## Llywodraeth Cymru

# Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol



Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru | 4 Chwefror 2021

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

WALES and the Sustainable Development Goals
SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS

## Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r rhain yn disgrifio'r canlyniadau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer 2050.

- A prosperous Wales
- A resilient Wales
- A healthier Wales
- A more equal Wales
- A Wales of cohesive communities
- A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language
- A globally responsible Wales

## DEALL CYMRU

Mecanweithiau i ddeall y Gymru sydd gennym yn awr a'r Gymru y gallem ei chael.

### Dangosyddion Cenedlaethol

Trwy 46 o ddangosyddion llesiant
Adroddiad Llesiant Blynyddol Cymru

### Cerrig milltir

Yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol er mwyn dangos faint o gynnydd a ddisgwylir

### Tueddiadau'r Dyfodol

Dyletswydd i gyhoeddi adroddiad gan y Llywodraeth bob 5 mlynedd ar dueddiadau sy'n effeithio ar Gymru

## GWNEUD IDDO DDIGWYDD

Dyletswydd llesiant i gyflawni datblygu cynaliadwy a gwneud y cyfraniad mwyaf tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

### DYLETSWYDD CYRFF CYHOEDDUS UNIGOL

44 o Gyrff Cyhoeddus
Cynllunio amcanion sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf tuag at gyflawni'r nodau
Cymryd camau i'w cyflawni

### DYLETSWYDD CYFUNOL

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
Asesu llesiant lleol
Cynllun Llesiant Lleol

## PUM FFORDD O WEITHIO ER LLESIANT

Egwyddor datblygu cynaliadwy – diwallu anghenion cenedlaethau presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

- INTEGREIDDIO
- ATAL
- CYDWEITHREDU
- HIRDYMOR
- CYFRANOGIAD

## GALLUOGI'R NEWID

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol annibynnol cyntaf y byd. Rôl yr archwilydd cenedlaethol – Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

LLES CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

# Deall Cymru

Nodau
Dangosyddion
Cerrig milltir
Tueddiadau

## Er mwyn gweithio tuag at y nodau mae angen inni wybod:

**C. Beth sydd wedi digwydd?**
Cael y dystiolaeth sy'n dangos lle rydym ni'n awr

**C. Beth sy'n digwydd?**
Er mwyn deall beth sy'n digwydd, mae angen naratif arnom i'n harwain

**C. Beth sydd angen digwydd ac erbyn pryd?**
Blaenoriaethu dangosyddion lle mae angen gweld newid

**C. Beth allai ddigwydd?**
Os **na weithredwn** a sut ydym yn nodi'r **heriau** o ran cyflawni'r nodau

## Yr adnoddau sy'n ein helpu:

**DANGOSYDDION CENEDLAETHOL**
sy'n caniatáu inni fesur cynnydd cenedl

**ADRODDIAD LLESIANT BLYNYDDOL**
sy'n rhoi'r hanes o newid i ni

**CERRIG MILLTIR**
sy'n darparu llwybr inni hyd at 2050

**ADRODDIAD TUEDDIADAU'R DYFODOL**
sy'n rhoi gwell dealltwriaeth inni o'r sbardunau a rhwystrau i gyflawni'r nodau

# Dyletswydd statudol i gyhoeddi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

Adran 11 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Rhaid i Weinidogion Cymru, yn ystod y **cyfnod o 12 mis** sy'n dechrau ar ddyddiad etholiad cyffredinol, gyhoeddi adroddiad ("adroddiad tueddiadau’r dyfodol") sy'n cynnwys – rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant **economaidd**, **cymdeithasol**, **amgylcheddol** a **diwylliannol** Cymru,




Wrth baratoi tueddiadau’r dyfodol rhaid i Weinidogion Cymru ystyried :







Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU (Cyhoeddir nesaf yn 2022)

# Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2017

## (diweddarwyd yn 2019)

Roedd adroddiad 2017 yn nodi tueddiadau'r dyfodol o dan chwe thema:

- Poblogaeth
- Iechyd
- Economi a seilwaith
- Defnydd tir ac adnoddau naturiol
- Cymdeithas a diwylliant
- Y newid yn yr hinsawdd

Rhan A | I ble y gallem fod yn mynd?

Tueddiadau'r Dyfodol sy'n Effeithio ar Gymru

Rhan B | Beth allai hyn ei olygu?

Ffactorau dylanwadol wrth wraidd tueddiadau'r dyfodol a rhai effeithiau posibl ar Gymru

Nifer o sleidiau data sy'n perthyn i bob un o'r chwe maes a gwmpesir




https://llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2017

# Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

**Asesu llesiant yn lleol**

- Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal.

- Mae angen cwblhau'r asesiadau nesaf erbyn mis Mai 2022.

- Rhaid i'r asesiad gynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal.

- Rhaid i'r dadansoddiad **gyfeirio at adroddiad tueddiadau'r dyfodol** a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 11 (pan fydd un wedi'i gyhoeddi) i'r graddau ei fod yn berthnasol i asesu llesiant yn yr ardal.

- Bydd hyn yn galluogi'r bwrdd i sicrhau ei fod yn ystyried anghenion hirdymor yr ardal yn ogystal â'r tymor byr.

# Meysydd i'w gwella

| | |
|---|---|
| Ymwybyddiaeth a Hygyrchedd | Gwella ymwybyddiaeth a hygyrchedd Adroddiad Tueddiadaur Dyfodol ac adnoddau cysylltiedig |
| Defnydd a chymhwyso | Deall y gwahanol ddefnyddwyr a chymhwyso Adroddiad Tueddiadaur Dyfodol ac adnoddau cysylltiedig yn effeithiol |
| Data a chynnwys | I ble y gallem fod yn mynd? Sicrhau bod y tueddiadau a nodwyd yn gyfoes, yn berthnasol ac yn briodol. |
| Dadansoddiad a senarios | Beth allai hyn ei olygu? Tynnu sylw at ganfyddiadau ac arsylwadau allweddol |

Beth yr YMDDENGYS syn digwydd?

Beth syn digwydd MEWN GWIRIONEDD?

Beth ALLAI ddigwydd?

# Deall defnyddwyr — hygyrchedd a defnydd

## Cyfnodau gwaith

| Cyfnod 1 \| Casglu gwybodaeth am y dyfodol<br>*Mewnbynnau - Gwybodaeth Strategol* | | | Cyfnod 2 \| Archwilio deinameg newid | Cyfnod 3 \| Disgrifio dyfodol posibl | Cyfnod 4 \| Cymhwyso a phrofi polisi |
|---|---|---|---|---|---|
| Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4 | Cam 5 | Cam 6 |
| Nodi tueddiadau | Arfarnu / sifftio tueddiadau | Cytuno ar dueddiadau (data) | Dadansoddi<br>Dehongli<br>Archwilio | Senarios<br>Persbectifau Newydd<br>Canfyddiadau | Defnyddio |
| Dealltwriaeth o’r defnyddiwr ------------------------------------------------------------□ | | | | | |

## Defnyddwyr

**Cyfnod darganfod** → **Cyfnod archwilio** → **Profi**

•pwy yw'r defnyddwyr tebygol a beth maen nhw'n ceisio'i wneud
•sut maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd (er enghraifft, pa wasanaethau neu sianeli maen nhw'n eu defnyddio)
•y problemau neu'r rhwystredigaethau y maent yn eu profi
•beth sydd ar ddefnyddwyr ei angen o'ch gwasanaeth i gyflawni eu nod

•gwella’r ddealltwriaeth o ddefnyddwyr a'u hanghenion
•profi syniadau dylunio a nodweddion newydd gyda defnyddwyr tebygol
•asesu profiad defnyddwyr o'ch gwasanaeth, er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion